

FFORWM SIROL NODIADAU'R CYFARFOD

DYDDIAD: Dydd Iau, 25 Mehefin 2019
AMSER: 6.30 pm – 8.30 pm
YN GWAHODD: Cyngor Tref Yr Wyddgrug
LLEOLIAD: Ystafell y Jiwbilî, Cyngor Tref Yr Wyddgrug, Ffordd Yr Iarll,
Yr Wyddgrug

PRESENOLDEB

1. Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

1.1. Yn bresennol

Cyngor Sir y Fflint:

- Arweinydd Cyngor Sir y Fflint
- Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir y Fflint
- Prif Swyddog Llywodraethu
- Prif Swyddog Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi
- Rheolwr Datblygu, Cynllunio
- Ymgynghorydd Perfformiad Strategol
- Swyddog Gweithredol

Ian Roberts
Carolyn Thomas
Gareth Owens
Andrew Farrow
Mandy Lewis
Jay Davies
Joanne Pierce

Cynghorau Tref a Chymuned:

- Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton
- Cyngor Tref Caerwys
- Cyngor Cymuned Cilcain
- Cyngor Tref Cei Connah
- Cyngor Cymuned Gwernymynydd
- Cyngor Cymuned Helygain
- Cyngor Cymuned Penarlâg
- Cyngor Cymuned Higher Kinnerton
- Cyngor Tref Yr Wyddgrug
- Cyngor Cymuned Mostyn
- Cyngor Cymuned Llaneurgain
- Cyngor Cymuned Penyffordd
- Cyngor Tref Saltney
- Cyngor Cymuned Sealand
- Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor
- Cyngor Cymuned Chwitfordd
- Cyngor Cymuned Ysceifiog

Cynrychiolwyr Eraill:

- Richard Williams, Prif Weithredwr, Sefydliad Cymunedol Cymru

FFORWM SIROL NODIADAU'R CYFARFOD

- Deryck Evans, Swyddfa Archwilio Cymru

1.2. Ymddiheuriadau

Cyngor Sir y Fflint:

- | | |
|--|-----------------|
| • Y Prif Weithredwr | Colin Everett |
| • Prif Swyddog Strydwedd a Chludiant | Stephen O Jones |
| • Prif Swyddog Tai ac Asedau | Neal Cockerton |
| • Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid | Claire Homard |
| • Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol | Neil Ayling |
| • Swyddog Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu | Sam Parry |

Cyngorau Tref a Chymuned:

- Cyngor Cymuned Argoed
- Cyngor Cymuned Bagillt
- Cyngor Tref Bwcle (Nid yw'n mynychu cyfarfodydd y Fforwm Sirol mwyach)
- Cyngor Cymuned Brynffordd
- Cyngor Tref y Fflint
- Cyngor Cymuned Gwernaffield
- Cyngor Tref Treffynnon
- Cyngor Cymuned yr Hôb
- Cyngor Cymuned Coed-llai
- Cyngor Cymuned Llanasa
- Cyngor Cymuned Llanfynydd
- Cyngor Cymuned Nannerch
- Cyngor Cymuned Nercwys
- Cyngor Cymuned Llaneurgain
- Cyngor Cymuned Queensferry
- Cyngor Tref Shotton
- Cyngor Cymuned Treuddyn

Diolchodd Gareth Owens i Gyngor Tref Yr Wyddgrug am gadeirio'r cyfarfod a darparu'r lleoliad.

Agorodd y Cynghorydd Tim Maunders, Maer Yr Wyddgrug, y cyfarfod gan ddiolch i bawb am ddod. Hysbysodd y Cynghorydd Maunders y Fforwm o'r diweddaraf mewn perthynas â chymhennu a gweithdrefnau gwacáu mewn achos o dân ac fe gyflwynodd bob eitem ar y rhaglen.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2019 yn gofnod cywir a nodwyd bod Cyngorau Cymuned Gwernymynydd a Llaneurgain yn bresennol yn y cyfarfod ond nad oedd hynny wedi'i nodi yn y cofnodion.

FFORWM SIROL NODIADAU'R CYFARFOD

RHAN UN

MATERION Y CYNGOR

1A. Sefydliad Gwaddol Cymunedol

Rhoddodd Richard Williams, Prif Weithredwr Sefydliad Cymunedol Cymru gyflwyniad i'r Fforwm gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ariannu'r Sefydliad. Mae'r elusen yn hynod weithgar yn Sir y Fflint ac yn seiliedig ar fodel gwaddol lle mae incwm yn cael ei ail-fuddsoddi. Mae'r elusen yn 20 mlwydd oed ac yn seiliedig ar fodel a ddechreuodd yng Ngogledd America. Mae paneli wedi'u lleoli o fewn Sir y Fflint ac mae pobl leol yn eistedd arnynt i adolygu ceisiadau.

Roedd y pwyntiau allweddol eraill yn cynnwys:

- Mae dwy gronfa yn darparu ar gyfer ardal Sir y Fflint, y Gronfa Waddol Gymunedol sy'n cefnogi prosiectau sy'n cefnogi datblygiad addysgol plant o oedran ysgol a phobl ifanc; prosiectau sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion sy'n cefnogi materion iechyd a ffyrdd iach o fyw; prosiectau cyflawni addysgol a phrosiectau cynhwysiant addysgol sy'n cefnogi disgyblion unigol â bwrsariau, teithio, ac ati. Mae Cronfa'r Degwm hefyd yn cael ei gweinyddu gan y Sefydliad ac yn darparu cymorth i grwpiau at ddibenion cymdeithasol, adloniadol ac elusennol eraill. Gellir dyfarnu grantiau cyfalaf er mwyn cynorthwyo â dodrefnu a chynnal adeiladau. Mae grantiau refeniw yn cefnogi sefydliadau gyda phrosiectau a gweithgareddau y bydd pobl Sir y Fflint yn elwa ohonynt.
- Y meini prawf ar gyfer ymgeisio yw;
 - gall unigolion 25 mlwydd oed ac iau sy'n byw yn Sir y Fflint wneud cais am grant o hyd at £200 (cyn belled â nad yw'r mentrau yn dod o dan y ddarpariaeth statudol bresennol).
 - gall Eglwysi a sefydliadau sy'n gweithio â phreswylwyr Sir y Fflint wneud cais am grant o hyd at £1,000
Rhaid i geisiadau ddangos yn union sut y byddant yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa a rhaid sicrhau nad yw'r unigolyn/ sefydliad wedi derbyn grant gan y gronfa hon yn y gorffennol.
- Rhaid i ymgeiswyr wneud cais ar-lein drwy wefan Sefydliad Cymunedol Cymru.

Soniodd Richard hefyd am Gronfa Gymorth Penarlâg a'r Cylch sy'n anelu i helpu pobl ag adnoddau cyfyngedig, y rhai yr ystyrir eu bod mewn argyfwng a grwpiau sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed. Yn y gorffennol, mae cyllid o Gronfa Gymorth Penarlâg a'r Cylch wedi cael ei ddefnyddio i wneud y canlynol; prynu cyfarpar a chynnal gweithgareddau ar gyfer grwpiau ac elusennau sydd wedi'u lleoli ym Mhenarlâg sy'n gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed; prynu eitemau hanfodol i'r cartref ac eitemau sy'n hanfodol i leihau nifer y bobl sy'n dioddef tlodi tanwydd a bwyd (parseli bwyd, blancedi ac ati).

- Gellir derbyn ceisiadau gan unigolion a sefydliadau am grantiau o hyd at £750.
- Rhaid i ymgeiswyr fyw ym mhlwyf hynafol Penarlâg, yn nhermau wardiau modern, mae hyn yn cynnwys: Aston, Dwyrain/ Gorllewin Brychdyn, Bwcle,

FFORWM SIROL NODIADAU'R CYFARFOD

Pentrobin, Ewloe, Penarlâg, Mancot, Cyffordd Saltney Mold, Saltney Stonebridge, Sealand, Dwyrain Shotton, Shotton Uchaf, Gorllewin Shotton.

Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy anfon e-bost at: grants@communityfoundationwales.org.uk neu ffonio 02920 379 580.

Cwestiynau ac Atebion:

C. Pa mor hir yw'r broses ariannu?

Mae dau derfyn amser ym mis Gorffennaf a bydd ymgeiswyr yn cael gwybod beth yw canlyniadau eu ceisiadau erbyn canol mis Medi. Gall cyfarfod adolygu brys hefyd gael ei drefnu.

1B. Rheolaeth Ariannol a Llywodraethu a Threfniadau Archwilio Mewnol Cynghorau Tref a Chymuned

Cafwyd cyflwyniad ar lywodraethu, rheolaeth ariannol ac archwilio mewnol gan Deryck Evans, Rheolwr Tîm Technegol ar gyfer Llywodraeth Leol, Cronfeydd Pensiwn a Chynghorau Tref a Chymuned sydd wedi'i leoli yn Swyddfa Archwilio Cymru. Amlinellodd Deryck y negeseuon allweddol o fewn yr adroddiad:

- Mae cynghorau lleol yn rheoli symiau cynyddol o arian y cyhoedd ac yn cadw cronfeydd wrth gefn sy'n gyfwerth â'r arian a godwyd gan dalwyr Treth y Cyngor. Rhaid i gynghorau ystyried eu rolau yn y dyfodol a sut y bydd hyn yn effeithio ar eu trefniadau rheoli arian.
- Mae nifer sylweddol o Gynghorau wedi methu cyflawni eu cyfrifoldebau statudol wrth baratoi cyfrifon a sicrhau bod y trefniadau cywir yn cael eu gwneud ar gyfer yr archwiliad statudol.
- Mae nifer y barnau archwilio cymwys wedi dyblu yn 2017/18 i 340 cyngor gydag archwilwyr yn tynnu sylw at fethiannau parhau mewn perthynas â rheolaeth ariannol a llywodraethu.
- Yn 2018, bu i'r Archwilydd Cyffredinol arfer ei bwerau statudol i gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd i wyth Cyngor yng Nghymru.
- Yn 2018/19 a 2019/20 bydd archwiliadau Cyngor Tref a Chymuned yn canolbwyntio ar feysydd y mae archwilwyr yn ystyried y gall cynghorau lleol wella eu rheolaeth ariannol a llywodraethu.

Roedd copïau caled o'r adroddiad ar gael.

Cwestiynau ac Atebion:

C. Beth yw'r broses os nad yw Cyngor yn darparu'r wybodaeth ofynnol?

Bydd yr Heddlu yn cael ei hysbysu o unrhyw achos o dwyll neu drosedd.

C. Ble allem ni gael mynediad at restr o archwilwyr mewnol?

FFORWM SIROL NODIADAU'R CYFARFOD

Nid ydym yn argymhell archwilwyr mewnol, fodd bynnag, rydym yn edrych ar gynnal sesiwn gydag Un Llais Cymru ar achrediad archwilio mewnol ar gyfer unigolion â chefnidir ariannol.

C. Mae swm y gwaith sydd angen ei baratoi ar gyfer archwiliad mewnol yn drwm ar y Clerc, yn enwedig os yw'r Clerc ond yn gweithio'n rhan amser. Gallai recriwtio Clercod fod yn anodd yn y dyfodol.

Ni ddylai paratoi ar gyfer archwiliad fod yn waith trwm os yw'r cofnodion yn gyfredol. Os ydych chi o'r farn bod y Clerc angen amser i baratoi ar gyfer yr archwiliad, dylid rhoi amser ychwanegol.

C. Yn achos nifer o gynghorau mae Clerc naill ai newydd adael neu ar fin dechrau'r swydd. Gall fod yn anodd os yw Clerc yn gadael yng nghanol archwiliad.

Cyfrifoldeb y Cyngor yw sicrhau y cedwir at drefniadau priodol, os ydych yn profi trafferthion, cysylltwch ag Un Llais Cymru am gymorth. Fel arall, cysylltwch â Chlerc cyfagos.

1C. Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynllun y Cyngor 2019/20

Cafwyd cyflwyniad gan Jay Davies ar ddatblygiad Cynllun y Cyngor 2019/20, yn enwedig y meysydd newydd sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun y gall y Cynghorau Tref a Chymuned eu cefnogi.

Prif bwyntiau'r Cynllun yw:

- Mae'r cynllun yn statudol ac yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol. Mae wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau ar gyfer 2019/20 ac mae'n un o sawl cynllun corfforaethol.
- Mae'r cynllun yn adeiladu ar gynllun y llynedd ar gyfer meysydd megis, tai a moderneiddio ysgolion ac mae hefyd yn cynnwys blaenoriaethau o'r Cabinet a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu, megis gwastraff ac ailgylchu. Mae blaenoriaethau sefydliadau partner hefyd wedi'u cynnwys, megis Lles, Diogelwch Cymunedol a mapio amgylcheddol. Mae'r Cynllun hefyd yn adlewyrchu anghenion, disgwyliadau a galwadau'r gymuned leol, megis cartrefi gofal preswyl / dementia a rheoli newidiadau i Gredyd Cynhwysol. Mae polisïau a deddfwriaethau cenedlaethol hefyd wedi cael effaith sylweddol ar gynnwys y Cynllun.
- Mae cyfres o 6 thema gyda blaenoriaethau 'yn ystod y flwyddyn' yn cael eu gosod yn flynyddol. Rhan 1 yw cynnwys craidd ein uchelgeisiau a'n elfennau cyflawnadwy ar gyfer y flwyddyn. Mae rhan 2 yn cynnwys manylion o ran sut yr ydym yn mesur ac yn monitro perfformiad yn erbyn cynnydd (*bydd hyn yn cael ei gytuno gan y Cabinet ym mis Gorffennaf*). Bydd cynllun darluniedig ar gael ar wefan y Cyngor erbyn diwedd mis Gorffennaf.
- Bydd ymgysylltiad, er mwyn llywio cynllun y flwyddyn nesaf, yn dechrau tua mis Tachwedd. Bydd y Fforwm a'r Cynghorwyr yn cael eu cynnwys o fewn y broses honno.

FFORWM SIROL NODIADAU'R CYFARFOD

Cwestiynau ac Atebion:

C. O fewn Cynllun 2; beth yw ystyr Taith Cwsmeriaid o fewn yr adran Cyngor sy'n Cysylltu?

Mae hyn yn ymwneud â'r gwaith a wneir ar gyfer canolfan cyswllt cwsmeriaid - un pwynt mynediad.

Cyngor Diogel a Glân / Cymunedau Glân Rwy'n gwneud fy ngorau i gael ffyrdd a gwteri'n daclus ond mae'n dasg amhosib', nid ydym yn cael unrhyw fath o wasanaeth yma'n Mostyn.

Rhaid trafod hyn a hysbysu eich Goruchwyliwr Ardal Strydwedd. Mae amserlenni ar waith er mwyn cynnal y math hwn o waith.

C. Nid yw'r glaswellt wedi'i dorri ac mae rhai lonydd bellach yn draciau mynediad sengl.

Mewn rhai rhannau o Benarlâg, mae'r Cyngor yn cynnal rhai ardaloedd ac yn trefnu i ardaloedd eraill gael eu cynnal drwy gontract allanol. Ar achlysuron, mae'r glaswellt sydd wedi'i dorri yn blocio gridiau. Nid yw'n ymddangos bod llawer o waith cynllunio wedi'i wneud cyn mynd ati i dorri'r glaswellt.

Bu i'r Cyng. Thomas ddyfynnu'r rheoliadau a chadarnhau, oherwydd y llifogydd, bod y gwaith o dorri'r glaswellt wedi'i ohirio.

C. Pa mor dda y cyflawnwyd amcanion y llynedd?

Yn dda iawn yn gyffredinol, mae Sir y Fflint yn un o'r Cyngorau sy'n derbyn y lefel isaf o arian ac yn perfformio orau yng Nghymru.

C. A fydd Rhan 2 yn dangos cymhariaeth ar gyfer y flwyddyn bresennol a pherfformiad y flwyddyn nesaf?

Na fydd, Rhan 2 fydd y gwaith manwl ategol, fodd bynnag, rydym yn defnyddio traciwr ar gymariaethau y gallwn eu rhannu. Yn ychwanegol, rydym wedi cyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol gan Lywodraeth Cymru i'w cyflwyno yng nghyfarfod y Fforwm yn y dyfodol.

C. Nodwyd mai Sir y Fflint oedd y gorau am lenwi ceudyllau, ond dim ond ar briffyrdd a chefnffyrdd.

Am y tro cyntaf rydym wedi rhoi arian o'r neilltu ar gyfer ardaloedd gwledig; ceudyllau, torri glaswellt a gwaith trwsio. Ar hyn o bryd mae gennym ôl-groniad o waith gwerth £40m ac mae camau wrthi'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

Bu i'r Cyng. Thomas gynnig mynychu cyfarfod Cyngor Cymuned Cilcain yn y dyfodol i drafod y materion hyn ymhellach, os hoffai'r Clerc ei gwahodd.

FFORWM SIROL NODIADAU'R CYFARFOD

Camau Gweithredu:

Cyngor Cymuned Cilcain i wahodd y Cyng. Thomas i gyfarfod Cyngor Cymuned yn y dyfodol.

[CC Cilcain i weithredu]

1D. Trosolwg o Strategaeth Ddigidol a Chyfrif Cwsmer Digidol y Cyngor.

Bu i'r Cyngor gymeradwyo'r Strategaeth Ddigidol y llynedd i gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael ar y wefan, gyda'r bwriad o alluogi cwsmeriaid i gael mynediad uniongyrchol at eu cyfrifon a thalu am y gwasanaethau y maent yn dymuno eu cael. Mae'r gwasanaeth hwn o'r enw 'Fy Nghyfrif' wedi cael ei lansio'n ddiweddar.

Mae'r cyfrif yn cynnig mynediad at wybodaeth sydd efallai o ddiddordeb i gwsmeriaid o fewn eu hardaloedd lleol, gwybodaeth am gasgliadau sbwriel, er enghraifft. Mae'r sgrin 'Fy Ymholiadau' yn dangos unrhyw ymholiad y mae'r cwsmer wedi'i anfon a'i statws, unrhyw ganiatâd cynllunio y mae'r cwsmer wedi gwneud sylw arno a manylion cynghorwr lleol y cwsmer.

Y gwasanaeth cyntaf i fynd yn fyw fydd y Gwasanaeth Tai a bydd hyn yn galluogi tenantiaid y Cyngor i gysylltu eu gwybodaeth tai i gyd, er enghraifft, eu manylion cyfrif rhent, ceisiadau ar gyfer gwaith atgyweirio a'u statws. Y nod yw i bob un o wasanaethau'r Cyngor fod ar 'Fy Nghyfrif'. Ochr yn ochr â hyn, gwneir gwaith gwella cyffredinol i wefan Sir y Fflint, yn enwedig y tudalennau Gwasanaethau Cymdeithasol. Gobeithir y bydd ein cwsmeriaid yn gweld budd a chyfleustra'r system newydd. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn diddymu argaeledd ein Canolfannau Cyswllt sefydledig.

Cwestiynau ac Atebion:

C. Ni fydd gan lawer o bobl sy'n cyflwyno cais ar gyfer gwaith atgyweirio fynediad at y system.

Mae nifer sylweddol o bobl bellach yn weithredol yn ddigidol, ac mae gwaith yn parhau â Swyddogion Cymorth Llety i gynorthwyo â digitaleiddio. Mae ein swyddfeydd Sir y Fflint yn Cysylltu hefyd yn agored i helpu â materion o'r fath.

C. Mae gennyf gyfrif yn barod ac rwyf yn defnyddio'r cyfrif i roi gwybod am ddiffygion. A oes modd i ni greu cyfrif ar gyfer Cynghorau Cymunedol?

Rydym wrthi'n dylunio safle ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned, mae swyddogaeth hysbysu wedi'i dylunio'n barod a gall bawb ei defnyddio.

C. Mae'n swnio fel syniad gwych, sut ydw i'n cael mynediad ato?

Ceir mynediad drwy wefan Cyngor Sir y Fflint, ar y dudalen flaen. Cewch hefyd ei lawrlwytho ar eich dyfais symudol.

FFORWM SIROL NODIADAU'R CYFARFOD

1E. Proses Cyn Ymgynghori Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Datblygiad Mawr

Rhoddodd Mandy Lewis gyflwyniad byr ar Broses Cyn Ymgynghori Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Datblygiadau Mawr.

Y negeseuon allweddol o'r cyflwyniad oedd:

- Gweithredwyd y broses hon ym mis Awst 2016 ac mae'n effeithio ar ddatblygiadau sy'n fwy na 100 metr sgwâr neu 10 eiddo neu fwy. Rhaid i ddatblygwyr gynnal cyn-ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio. Mae nifer o ymarferion cyn-ymgynghori eisoes wedi'u cynnal ledled y Sir.
- Rhaid i'r datblygwr sicrhau bod y cais cynllunio drafft ar gael ar gyfer yr ymgynghoriad, yn cynnwys Datganiad Dylunio a Mynediad, cynlluniau/arolygon a dogfennau technegol. Dylai'r cyfnod ymgynghori bara am isafswm o 28 diwrnod a chynnwys hysbysiadau safle. Dylai hysbysiadau hysbysu preswylwyr o'r cynigion a'r broses ymgynghori. Rhaid i'r datblygwyr ymgynghori â phob Cyngor Cymuned ger lleoliad y cais arfaethedig.
- Nid oes rhaid i'r datblygwyr hysbysu'r Awdurdod Lleol ei fod yn cynnal Ymgynghoriad Cyn-Cynllunio gan nad yw'r Awdurdod Lleol yn ymgynghori. Fodd bynnag, efallai y bydd rhaid ymgynghori â rhai o adrannau'r Awdurdod Lleol, megis Strydwedd.
- Mae'r camau gweithredu y dylai'r Cyngor Cymuned neu Dref ei gymryd yn cynnwys hysbysebu copi o'r hysbysiad i Ymgynghori Cyn-Ceisio. Dylai aelodau geisio mynychu unrhyw ddigwyddiad ymgynghori sydd yn cael ei gynnal ac adrodd yn ôl yn ystod eu cyfarfod nesaf. Os yw hyn y tu allan i'r cyfnod ymgynghori o 28 diwrnod, dylai'r Cyngor Tref a Chymuned lunio cytundeb ar sut i ymateb yn ffurfiol.
Os bydd arnoch angen unrhyw gymorth ynglŷn â sut i ymateb i Ymgynghoriad Cyn-Ceisio, gellir cysylltu â Mandy Lewis drwy anfon e-bost at: Mandy.Lewis@flintshire.gov.uk

Cwestiynau ac Atebion:

C. Mae datblygwyr yn anwybyddu Cyngorau Tref a Chymuned ac nid oes ganddynt lawer o barch tuag at y gymuned.

Mae hon yn ddeddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru ac mae'n rhaid i ddatblygwyr gadw ati.

Camau Gweithredu:

Joanne Pierce i anfon cyfeiriad e-bost pob Clerc at Mandy Lewis a bydd Mandy yn dosbarthu gwybodaeth bellach.

[JP/ML i weithredu]
Wedi'i gwblhau

FFORWM SIROL NODIADAU'R CYFARFOD

RHAN DAU

EITEMAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

2A. Ni chyflwynwyd unrhyw eitem arall gan Gyngorau Tref a Chymuned.

RHAN TRI

CYFARFODYDD YN Y DYFODOL

Mae cyfarfodydd Fforwm Sirol ar gyfer y dyfodol wedi cael eu trefnu fel a ganlyn:

Dyddiad: Dydd Llun, 7 Hydref 2019

Amser: 6.30pm - 8.30pm

Lleoliad: Cyngor Cymuned Penarlâg, Scout Hut HQ, 133 The Highway,
Penarlâg, CH5 3DN

Cynllun Gwaith Arfaethedig Hydref 2019:

- **Ymgynghori ar Strategaeth Wastraff** – Stephen Jones, Cyngor Sir y Fflint
- **Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynllun Ariannu a Gorfodi Cynllunio Amgylcheddol** - Stephen Jones, Cyngor Sir y Fflint
- **Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynllun y Cyngor 2019/20** - Jay Davies, Cyngor Sir y Fflint